**Darren Millar AS - Ymweliad â Brwsel**

**6 – 7 Rhagfyr 2022**

## Diben yr Ymweliad

Cefais wahoddiad i gyfrannu at gyfres o ddigwyddiadau ym Mrwsel ar 6 a 7 Rhagfyr 2022.

Roedd yr ymweliad yn gyfle i ryngweithio â seneddwyr Ewropeaidd eraill yn ogystal â chynrychiolwyr llywodraethau rhanbarthol, gan gynnig llwyfan ar gyfer trafod arferion gwaith seneddol, rhannu syniadau polisi ac ystyried ffyrdd newydd o hybu gwaith ymgysylltu rhwng y Senedd a chymunedau ac arweinwyr ffydd.

## Cinio a Sesiwn Bord Gron ar Ffydd mewn Gwaith Datblygu Economaidd

Ar 6 Rhagfyr, cymerais ran mewn trafodaeth bord gron a chinio yn Chateau de Rixensart, a gynhaliwyd gan y Tywysog Charles-Louis de Merode. Roedd y digwyddiad yn cynnwys arweinwyr ffydd, arweinwyr busnes Ewropeaidd, cyrff anllywodraethol, swyddogion Llywodraethau a gwleidyddion o 12 gwlad, gan gynnwys Wcráin.

Llwyddais i hyrwyddo'r gwaith ymgysylltu rhagorol yng Nghymru rhwng y Senedd a chymunedau ffydd, yn ogystal â gwaith Fforwm Cymunedau Ffydd Llywodraeth Cymru o ran helpu i lunio polisi.

## Cyfarfod preifat gyda Chynrychiolwyr Wcráin

Tra yn Chateau de Rixensart, cynhaliais gyfarfod preifat gyda dirprwyaeth o Wcráin. Rhoddodd hyn gyfle i mi rannu rhai sylwadau personol ar fy ymweliad ag Wcráin yn gynharach yn y flwyddyn ac i barhau a'r gwaith o ennyn cefnogaeth drawsbleidiol pobl Cymru a'r Senedd i Wcráin.

Nododd aelodau'r ddirprwyaeth faint yr oeddent yn gwerthfawrogi cefnogaeth Senedd Cymru, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mynegwyd hefyd bwysigrwydd cyrff anllywodraethol ym maes ffydd wrth ymateb i'r gwrthdaro, gan gynnwys y cyrff hynny sydd wedi'u lleoli yn y DU.

## Digwyddiad yn y Musées Royaux des Beaux-Arts

Cynhaliwyd cinio yn y Musées Royaux des Beaux-Arts gyda'r hwyr ar 6 Rhagfyr, lle bu nifer o siaradwyr yn trafod yr heriau sy'n wynebu cyfandir Ewrop o safbwynt cymunedau ffydd.

Ymhlith y siaradwyr oedd y Tywysog Nicholas von Liechtenstein; Dritan Abazović, Prif Weinidog Montenegro; ac arweinwyr ffydd o Rwsia a Wcráin sy'n gweithio dros heddwch a chymod rhwng y ddwy wlad.

Roedd y digwyddiad yn gyfle i rwydweithio ag Aelodau o Senedd Ewrop a Seneddau Cenedlaethol, cynrychiolwyr etholedig eraill, uwch swyddogion, cynrychiolwyr busnes a'r trydydd sector ac arweinwyr ffydd.

**Brecwast Gweddi Ewropeaidd**

Cynhaliwyd y Brecwast Gweddi Ewropeaidd yn Senedd Ewrop ar fore 7 Rhagfyr. Roedd y digwyddiad yn nodi 25 mlynedd ers sefydlu'r brecwast ac fe'i cynhaliwyd gan Peter van Dalen ASE.

Traddodwyd y brif araith gan Mircea Geoană, Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol NATO, a soniodd am yr angen i gael ffydd mewn buddugoliaeth wrth ymateb i ymosodiad Rwsia ar Wcráin. Cefais drafodaeth fer â Mr Geoană ar ôl y brecwast o ystyried fy rôl yn cadeirio ymchwiliad parhaus y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig i Gydweithio Ewropeaidd ym meysydd Amddiffyn a Diogelwch ar ôl Brexit.

Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys cyfraniadau gan westeion rhyngwladol yn cynrychioli Wcráin, Latfia, y Ffindir a'r Iseldiroedd.

Yn ystod y brecwast, cefais gyfle i wneud araith fer yn estyn cyfarchion pwyllgor trefnu Brecwast Gweddi Seneddol Dewi Sant yn y Senedd, yn ogystal â sôn ychydig am etifeddiaeth Gristnogol Cymru a hanes Capel Pisgah yng Nghasllwchwr.

Cyflwynais Feibl o Bisgah i Peter van Dalen ASE a oedd wedi teithio o Gymru i frecwastau gweddi cenedlaethol ledled y cyfandir cyn cyrraedd Brwsel ar gyfer y digwyddiad arbennig hwn – gwerthfawrogwyd y rhodd yn fawr iawn.

Yn dilyn y digwyddiad, cefais gyfle i gwrdd ag ystod o gynrychiolwyr i drafod:

- erledigaeth lleiafrifoedd Cristnogol;
- rôl ffydd yn y sgwâr cyhoeddus;
- y ffordd y mae cymunedau ffydd yn ymgysylltu â Seneddau a Llywodraethau; a
- rôl ffydd wrth ennyn heddwch a chymod rhwng cenhedloedd.

**Casgliad**

Roedd yr ymweliad byr hwn â Brwsel yn hynod brysur ond yn werth chweil. Rhoddodd gyfle i mi hyrwyddo Cymru a'r Senedd mewn nifer o ddigwyddiadau pwysig, yn ogystal â rhoi cipolwg diddorol ar sut mae gwahanol genhedloedd yn ymgysylltu â chymunedau ffydd wrth ddatblygu polisïau a mentrau heddwch.

Rwy'n mawr obeithio y caf gyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.